

IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 8 CHWEFROR 2023

Yn Cynghorydd Michael(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Bridgeman a/ac Shimmin

1 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYD HACNI/LLOGI PREIFAT

Datganodd y Cynghorydd Shimmin fuddiant personol yn Achos 4 oherwydd rhyngweithio cymdeithasol blaenorol gyda gwraig y gyrrwr, a oedd yn bresennol. Byddai'r mater yn cael ei ohirio am 1 mis.

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Derbyniodd yr Is-bwyllgor gynrychiolaeth gan yrrwr oedd wedi derbyn pwyntiau cosb am oryrru. Dywedodd y gyrrwr fod y drosedd wedi digwydd yn ystod argyfwng teuluol wrth ymweld â pherthynas yn yr ysbyty. Nid oedd yn gweithio adeg y drosedd.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael rhybudd ysgrifenedig.

(2) Achos 2

Cafodd aelodau sylwadau gan yrrwr oedd wedi derbyn pwyntiau cosb am yrru heb yswiriant. Cafodd aelodau wybod bod Swyddogion Trwyddedu yn dyst i'r gyrrwr yn ceisio llogi ei gerbyd a oedd wedi'i drwyddedu dim ond ar gyfer hurio preifat, yn groes i amodau ei drwydded.

Dywedodd y gyrrwr ei fod yn aros mewn ciw o draffig yng nghanol y ddinas. Aeth dau deithiwr i mewn i'r cerbyd ac er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro posib penderfynodd fynd â nhw i'w cyrchfan.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig a bod yn ofynnol iddo gwblhau'r cymhwyster SQA o fewn cyfnod o bedwar mis.

(3) Achos 3

Ystyriodd yr Is-bwyllgor achos gyrrwr a gafwyd yn euog o gario gwrthrych â llafn mewn man cyhoeddus a defnyddio geiriau

bygythiol a sarhaus mewn man cyhoeddus.

Dywedodd y gyrrwr iddo gael dirwy o £695 yn Llys Ynadon am yrru heb yswiriant. Digwyddodd ffrae pan alwodd beili yn ei gartref i gasglu'r ddirwy nad oedd wedi'i thalu. Ni chafodd y troseddau eu datgan adeg y troseddau nac ar y cais i adnewyddu trwydded y gyrrwr.

PENDERFYNWYD – Bod y drwydded gyrrwr cerbydau hacni / llogi preifat yn cael ei ddiddymu oherwydd y defnydd o eiriau bygythiol a sarhaus, cario gwrthrych â llafn mewn man cyhoeddus ac am beidio â datgan euogfarnau troseddol yn ôl y gofyn.

(4) Achos 4

Wedi'i ohirio am 1 mis

(5) Cais 5

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr oedd wedi methu â darparu tystysgrif GDG ddilys.

PENDERFYNWYD - Bod y drwydded gyrrwr yn cael ei hatal nes y bydd tystysgrif GDG dilys yn cael ei darparu.

(6) Achos 6

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr oedd wedi derbyn rhybudd am drosedd o ymosod a churo.

Dywedodd y gyrrwr ei fod yn rhan o ffrae gyda dyn drws yn ei glwb cymdeithasol. Rhoddodd y gyrrwr ei gyfrif o'r digwyddiad. Dywedodd y gyrrwr ei fod yn gyn-filwyr a'i fod yn yrrwr da. Nid oedd yn gweithio adeg y digwyddiad ac nid oedd yn berson treisgar nac yn beryg i gwsmeriaid.

Dim camau pellach

(7) Achos 7

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yrrwr oedd wedi derbyn pwyntiau cosb am drosedd o oryrru. Roedd y gyrrwr yn derbyn ei fod ar fai am y drosedd ac roedd yn edifar am ei weithredoedd.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.00 pm